

CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
8 Mehefin 2022
AM 7.30 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, R G Parry, G Parry, Cyng N Evans (Cyngor Sir), G Owen (Clerc),	
YMDDIHEURIADAU: Dim	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	DATGAN DIDDORDEB – Cyng I Roberts a P Roberts – eitem 8.2
3	DERBYN COFNODION Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 20.04.22. Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng P Roberts yn eilio.
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Lon y Fynwent – Disgwyl i R G Hire wneud y gwaith
4.2	Grant ar gyfer y maes Chwarae – mewn llaw
4.3	Raffle – Trafod yn y cyfarfod nesaf
4.4	Parc Solar - Mae'r Clerc wedi gwahodd swyddogion i'r cyfarfod heno ond nid ydynt yn gallu bod yn bresennol. Bydd yn eu gwahodd i gyfarfod mis nesaf.
4.5	Gor-yrru Bryngwran - i'w drafod yn y cyfarfod mis nesaf. Roedd y Clerc wedi gwahodd yr Heddlu i'r cyfarfod heno ond nid oeddent yn gallu bod yn bresennol.
4.6	Baw cwn - Dywedodd y Clerc ei fod wedi cyfarfod â staff yr AHNE yn ddiweddar a chytunodd y lleoliadau ar gyfer y peiriannau dosbarthu bagiau cŵn: Stryd Fawr, Lôn Ty Hen a ger Hebron. Ni allant osod un yn Lôn Penrallt oherwydd nad oes polyn ar gael dim ond polion telegraff na allant eu defnyddio.
5	ADRODDIAD y CADEIRYDD – Llongyfarchodd y Cadeirydd y Cyng N Evans ar gael ei ethol yn Gynghorydd Sir. Diolchodd y Cyng Evans i'r Cyng R G Parry am ei flynyddoedd lawer o wasanaeth fel Cynghorydd Sir.
6	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Dim
	Llofnod.....Cadeirydd 13.07.22

7	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
	<p>Mrs A Williams, 12 Bro Mynydd – <i>“I would like to raise a complaint about the trouble that I have had from children behind my estate (Bro Mynydd/Bro Crigyll). Every evening after school/weekends/school holidays, there are a group of children that play ball games behind my back garden and they pound the ball towards my wooden fence causing loud noises which irritates both me and torments my dogs. This is a nuisance also as they end up kicking the ball over the fence and they call at my house and expect me to go to my back garden and get the ball for them but what they don’t realise is that I have severe mobility issues and it is a struggle for me to get up, answer the door, get to the back garden and then bend down to pick the ball up and pass it back over to them, it’s just not possible. So what they do it climb over my fence to get the ball without permission and therefore tress-passing on my property.</i></p> <p><i>I rarely ever go out due to both my mobility issues and my mental health conditions. The only fresh air that I ever get is when I sit outside in my back garden however, I am unable to do this anymore due to these problematic children.</i></p> <p><i>Today, I was sitting outside and they kept on pounding the ball against my fence and therefore causing loud noise. I asked them politely to stop and their attitude was absolutely appalling. Although I remained calm, they continued to respond with things such as ‘you’ve got no right to tell me what to do, I’ve got every right to play here’ and although they are correct, I explained that I was only asking them not to bang it against my fence. They did not listen and in the end, they were banging it even worse to try and infuriate me even more and they were all laughing while they were doing it (see video attached). It’s horrendous and I just can’t take it anymore. I have recently moved to the area and I have already asked for a transfer, all because of these vile children. This situation is adding to my already poor mental health and I am just fed up. Please can you sort this out as enough is enough”</i></p> <p>Mae’r Cyngor yn deall bod pethau wedi gwella, yn dilyn atgyfeiriad i Gymdeithas Tai Bro Crigyll gan y Clerc. Fodd bynnag, mae plant yn dal i ddringo ffensys ger blwch monitro propan. Bydd y Clerc yn cyfeirio hyn at Gymdeithas Tai Eryri.</p>
	Llofnod.....Cadeirydd 13.07.22

8	MATERION ERAILL
8.1	Bin y Fynwent - Dywedodd y Clerc nad oedd Mr Kevin Humphreys yn gallu cael wagen i lawr y lôn i'r fynwent i wagio bin mawr. Bydd yn gofyn i Mr Humphreys am bris am wagio'r bin bach yn wythnosol.
8.2	Tap Mynwent Salem - Mae'r cyngor wedi derbyn cwynion nad oes tap ym mynwent Salem. Mae yna danc sy'n cynnwys dŵr budr. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â swyddogion Henaduriaeth Môn i drefnu cyfarfod safle.
8.3	Etholiad 05.05.22 - Mae'r Clerc wedi derbyn yr enwau canlynol i'w cyfethol: John Earnshaw, Eirian Huws, Eve Law-Shui Nicholson, Sioned Jones, Neville Evans. Cytunwyd i dderbyn pawb yn aelodau o'r cyngor.
8.4	Defibrillator - Roedd y Cyng P Roberts eisiau gwybod sut roedd yn cael ei weithredu mewn argyfwng. Cafwyd eglurhad gan y Cyng N Evans. Gofynnodd y Cyng. Roberts a fyddai modd rhoi'r cod i bob tŷ yn y gymuned? Dywedodd y Cyng Evans y byddai'n gwneud ymholiadau.
8.5	Parcio yn y Stryd Fawr - Dywedodd y Cyng N Evans ei fod yn bryderus iawn ynghylch parcio ar y Stryd Fawr pan fydd dosbarthiadau keep fit yn cael eu cynnal. Ar sawl achlysur bu bron i ddamwain. Mae wedi derbyn cwynion nad yw trigolion yn gallu cyrraedd y ffordd. Maent wedi cael cynnig parcio yn Lloyds Blinds ac yn ysgoldy ond nid ydynt yn gwneud hynny. Cytunwyd bod y Cyngor Cymuned yn cynnig lle parcio iddynt yn y fynwent ar yr amod nad ydynt yn dal y cyngor yn gyfrifol am eu cerbydau nac unrhyw berson sy'n cerdded i ac o'r maes parcio. Byddai angen iddynt dderbyn y cynnig ar risg eu hunain. Byddai angen i'r Clerc roi gwybod i'r trefnydd bob tro mae angladd fel bod modd cadw'r maes parcio'n glir.
8.6	Ffens y cae Chwarae – Neges gan y Cyng N Evans: <i>“Wedi cael galwad a sgwrs efo perchenog y cae sydd drws nesa i cae'r ysgol. Mae o a'r cyngor sir wedi dod i gytundeb i drwsio'r ffens rhwng ei gae o a cae'r ysgol, ond pryderu oedd o am gyflwr y gamfa. Mae o'n dweud fod plant yn methu defnyddio y gamfa pan mae pel yn mynd drosodd am fod y steps wedi torri, a gofyn oedd o os fysa y cyngor bro yn trefnu i'w thrwsio asap. Mae gwaith ar y ffens yn digwydd fory a pryderu mae o bydd y plant yn torri y ffens eto os bydd y gamfa ddim yn cael ei thrwsio. A fyddai modd trefnu hyn-neu a oes angen ei drafod/cytuno mewn cyfarfod or cyngor bro”</i> Gofynnwyd i'r Clerc gyfeirio'r mater i sylw'r Cyngor Sir
	Llofnod.....Cadeirydd 13.07.22

9	MATERION ARIANNOL
9.1	Cyfrifon 2021-2022 - Derbyniwyd cyfrifon 2021-2022
9.2	Cytunwyd i dalu anfoneb y Cyngor Sir am gostau etholiad o £270.00
10	MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF
	Dim
	Llofnod.....Cadeirydd 13.07.22